

**CYFARFOD: PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

**DYDDIAD: 30 MEHEFIN 2022**

**TEITL: RHAGLEN GYFALAF 2021-22 - ADOLYGIAD DIWEDD  
BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2022)**

**PWRPAS: ADRODDIAD MONITRO AR WARIANT AC ARIANNU'R  
RHAGLEN GYFALAF**

**GWEITHREDIAD: DERBYN Y WYBODAETH, AC YSTYRIED Y RISGIAU YN  
YMWNEUD Â'R RHAGLEN GYFALAF**

**SWYDDOG CYSWLLT: FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID**

**AELOD CABINET: CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID**

---

1. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (adolygiad diwedd blwyddyn o'r rhaglen gyfalaf) i'r Cabinet ar 14 Mehefin ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.
2. Y drefn yn arferol yw ein bod yn cyflwyno'r adroddiad Cabinet i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i'w graffu ynghyd â phenderfyniadau perthnasol cyfarfod 14 Mehefin o'r Cabinet sydd ar y dudalen dilynol.
3. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, ystyried penderfyniad y Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**Atodiadau:**

Taflen benderfyniad Cabinet 14 Mehefin  
Adroddiad Cabinet 14 Mehefin

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	14 Mehefin 2022
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	29 Mehefin 2022

### PWNC

Eitem 8:RHAGLEN GYFALAF 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2022)

### PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2022) o'r rhaglen gyfalaf.

Nodwyd y gwariant o £37,054,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22, fydd yn cael ei ddefnyddio yn y datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2021/22.

Cymeradwywyd ariannu'r addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £173,000 lleihad mewn defnydd o fenthyca
- £11,304,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- £94,000 lleihad mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- £426,000 lleihad mewn defnydd o gyfraniadau referniw
- Dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- £1,003,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol) ac er mwyn caniatáu i'r cyfrifon terfynol ffurfiol gael eu cwblhau.

### DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

### UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.